Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 29.01.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Hyfforddiant Galwedigaethol (VTQ) a chymwysterau cyffredinol eraill yn 2021** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**C1. A oes unrhyw arholiadau ysgrifenedig eraill y disgwilir iddynt gael eu cynnal o fis Ebrill ymlaen yn ystod y flwyddyn academaidd hon ddylai fod o fewn y cwmpas, ac felly ni ddylent fynd yn eu blaen?**

| |
|---|
| Dim rydym wedi eu nodi. |

**C2. Ydych chi'n cytuno y dylai arholiadau ysgrifenedig ar gyfer cymwysterau cyffredinol eraill nad ydynt yn gymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch y disgwylir iddynt gael eu cynnal o fis Ebrill ymlaen yn ystod y flwyddyn academaidd hon, fod yn destun trefniadau amgen yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, fel yr ymdrinnir â nhw yn rhan B yr ymgynghoriad hwn?**

**Ydym**

| |
|---|
| Ydym. Byddai'n fuddiol rhoi trefniadau amgen ar waith er cydraddoldeb a chydlyniant, fel nad yw dysgwyr dan anfantais, a'u galluogi i symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. |

**C3. Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu i gymwysterau Medrau Gweithredol fynd yn eu blaen lle gellir eu cyflwyno yn unol â mesurau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys o bell, o fis Ebrill ymlaen, ac fel arall, eu dyfarnu trwy drefniadau amgen a osodwyd gan Ofqual?**

**Ydym / Nac ydym**

| |
|---|
| Ydym. Rydym yn cytuno, ar y cyfan, y bydd cael math o asesiad ar waith, lle mae'n ddiogel gwneud hynny, yn helpu cefnogi datblygiad y medrau hyn gan ddysgwyr.<br><br>Yng Nghymru, y cymwysterau medrau cyfatebol yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, wedi eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru addasiadau i drefniadau asesu ym mis Rhagfyr 2020. Gweler https://www.https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/diweddariad-sgiliau-hanfodol-cymru/ a https://www.qualificationswales.org/media/6848/201113-esw-updated-adaptations.pdf . Rydym yn cytuno ar y cyfan fod addasiadau Cymwysterau Cymru i asesiadau ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru yn briodol o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft, mae'r gofyniad i ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau Cymhwyso Rhif neu Gyfathrebu ar Lefelau 1-3, i sefyll y prawf cadarnhau ond nid y dasg asesu ar wahân, yn gyfaddawd addas. |

**C4. Ydych chi'n cytuno na ddylai arholiadau elfen graidd Lefel T fynd yn eu blaen yn ystod yr haf eleni, ac y dylid eu sefyll yn ystod yr ail flwyddyn, ond y dylai myfyrwyr gael dewis o hyd i ddilyn y prosiect wedi'i osod gan gyflogwr?**

**Ydym / Nac ydym**

Dd/b

Yn gyffredinol, ni chaiff cymwysterau lefel T eu dilyn yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r ymagwedd gyffredinol i ohirio arholiadau craidd a chaniatáu i ddysgwyr barhau â'u prosiect wedi'i osod gan gyflogwr.

**C5a. Ydych chi'n cytuno y dylai arholiadau ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth a phrentisiaethau barhau i fynd yn eu blaen trwy gydol y flwyddyn academaidd, lle gellir eu cyflwyno yn unol â mesurau iechyd cyhoeddus, neu bydd angen eu gohirio fel arall?**

Ydym – bydd hyn yn bwysig i alluogi dysgwyr i gwblhau eu prentisiaethau neu gyrsiau eraill, a chefnogi cyflogwyr a'r economi. Fodd bynnag, fel rydym yn nodi yn yr ateb i C17, bydd yn anodd sicrhau nad yw dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau dan anfantais o gymharu â'r rhai sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol, yn enwedig lle mae angen iddynt gwblhau arholiadau cymhwysedd galwedigaethol ymarferol.

**C5b. Os nad ydych yn cytuno, pa arholiadau cymhwysedd galwedigaethol, ymarferol, na ddylai fynd yn eu blaen, yn eich barn chi?**

Dd/b

**C6. Beth, os o gwbl, yw'r gwahaniaethau pwysig o ran ymagwedd y mae angen eu defnyddio mewn arholiadau ar gyfer cymwysterau Lefel 4-5 a reoleiddir gan Ofqual, yn eich barn chi?**

Rydym yn cytuno y dylid dilyn yr un egwyddorion ac ymagweddau ar gyfer y cymwysterau hyn â'r rhai ar lefel 3 neu'n is.

**C7. A oes yna unrhyw gymwysterau o fewn cwmpas trefniadau dyfarnu amgen lle nad yw math o asesiad athro yn briodol?**

**Oes / Nac oes**

| |
|---|
| Dim rydym wedi eu nodi. |

**C8. Ydych chi'n cytuno y dylai asesu mewnol barhau, lle bo'n berthnasol, ar gyfer yr holl ddysgwyr lle bo modd?**

**Ydym / Nac ydym**

| |
|---|
| Ydym |

**C9. Ydych chi'n cytuno â'r effeithiau rydym wedi eu nodi, ac a oes yna unrhyw effeithiau eraill, gan gynnwys effeithiau cydraddoldeb, o'r polisi yn Rhan A y dylid eu hystyried?**

Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn werthusiad tra ystyriol o'r effaith ar wahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hefyd yn cyfeirio'n briodol at yr effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, yn enwedig o ran y cyfle a gaiff dysgwyr i ddefnyddio offer TG a mynediad at y rhyngrwyd, sy'n parhau i fod yn ffactor sy'n cyfyngu cyfranogiad dysgwyr yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae angen ystyried anghenion dysgwyr sy'n dymuno cael eu hasesu yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.  Er enghraifft, bydd yn bwysig trefnu bod deunyddiau ategol ac adnoddau asesu ar gael gan sefydliadau dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer cymwysterau lle byddai hyn yn arferol.

## Rhan B – Ymagwedd at ddyfarnu Cymwysterau Hyfforddiant Galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol eraill

**Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn amlinellu cynigion ar gyfer y modd y bydd Ofqual yn gweithredu polisi'r Adran.  Mae hyn yn cynnwys gofyn am farn ar beth ddylai ddigwydd os yw'r Adran yn penderfynu mabwysiadu cynigion y polisi a amlinellir uchod yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.  Mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau isod at gymwysterau o fewn y cwmpas yn golygu y dylai'r cymwysterau a gynigir fod o fewn y cwmpas, fel yr amlinellir yn Rhan A.**

**C10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r trefniadau rheoleiddio amgen ond fod yn berthnasol i'r cymwysterau a nodir yn Rhan A y ddogfen hon?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r trefniadau rheoleiddio amgen fod yn berthnasol i'r holl ddysgwyr sy'n disgwyl sefyll arholiadau neu asesiadau yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/2021 ar gyfer y cymwysterau a nodwyd o fewn y cwmpas yn Rhan A yr ymgynghoriad hwn?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C12. A ddylai cymwysterau cyffredinol eraill fel rhai cyn Prifysgol, AEA, Mathemateg Graidd a'r Fagloriaeth Ryngwladol gael eu cynnwys o dan y mesurau a gynigir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, neu o dan y trefniadau amgen ar gyfer Cymwysterau Hyfforddiant Galwedigaethol rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith?**

- **O dan y mesurau a gynigir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, neu**
- **O dan y trefniadau amgen arfaethedig ar gyfer dyfarnu Cymwysterau Hyfforddiant Galwedigaethol**

| |
|---|
| Ar gyfer cymwysterau a gynigir yng Nghymru, rydym yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol, fel yr amlinellir ar wefan Cymwysterau Cymru (https://qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/datganiadau-cymwysterau-cymru/ymgynghoriad-ar-ddull-o-ymdrin-a-chymwysterau-galwedigaethol-dynodedig-dweud-eich-dweud/) i ystyried yr ymagwedd at gymwysterau galwedigaethol sy'n debyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch (h.y. y rhai sy'n cael eu hasesu trwy lwybr sy'n seiliedig ar arholiadau i raddau helaeth) yn sgil yr ymagwedd a ddefnyddir o ran cymwysterau cyffredinol yng Nghymru. |

**C13. Ar gyfer dysgwyr sy’n disgwyl sefyll asesiadau ym mis Ionawr, a oes yna unrhyw ffactorau penodol y byddai angen eu hystyried wrth ddatblygu’r trefniadau rheoleiddio amgen i geisio sicrhau tegwch?**

Cawn ein calonogi y bydd trefniadau rheoleiddio amgen ar gyfer dysgwyr a fyddai fel arfer wedi cael eu hardystio ym mis Ionawr yn ceisio sicrhau nad yw’r dysgwyr hyn yn cael eu rhoi dan anfantais, ac y gallant gael canlyniadau, p’un a wnaethant sefyll arholiad allanol ym mis Ionawr ai peidio.

**C14. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut gellid diffinio arholiadau ar gyfer cymwysterau o fewn cwmpas y trefniadau rheoleiddio amgen?**

Fel yr awgrymir, byddai’n fuddiol pe bai set gyson o dermau yn cael eu diffinio a’u defnyddio. Gellid cadw’r term ‘arholiad’ dim ond ar gyfer asesiadau sy’n bodloni’r amodau a amlinellir ym mharagraff 66. Gellid galw asesiadau nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hyn yn syml yn ‘asesiadau’ gyda theitlau priodol fel ‘llyfr agored’ ac ‘wedi’u gosod yn allanol a’u marcio’n fewnol’, lle bo’n briodol. Trwy ddefnyddio’r termau diffiniedig hyn, bydd yn fuddiol iawn nodi pa fathau o asesiad fyddai’n cael eu hystyried yn hyfyw, pa rai sy’n anhyfyw, ac unrhyw eithriadau lle byddai sefydliadau dyfarnu, neu’r darparwyr eu hunain, yn y sefyllfa orau i benderfynu p’un a yw’r asesiad yn hyfyw.

**C15. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’n cynnig i ganiatáu i sefydliadau dyfarnu wneud dyfarniadau pan na fydd yr holl asesiadau mewnol wedi cael eu cwblhau mewn cymwysterau o fewn cwmpas y trefniadau rheoleiddio newydd?**

**Cytuno’n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno’n gryf**

Cytuno – i alluogi dysgwyr i fynd ymlaen i’r cam nesaf yn eu bywydau

**C16. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar beth ddylai’r egwyddorion arweiniol fod i sefydliadau dyfarnu ar gyfer dyfarnu cymwysterau lle na chaiff arholiadau eu cynnal a/neu ble na all dysgwyr gwblhau’r holl asesiadau mewnol?**

Nid yw'r tensiwn rhwng egwyddor 2 a 4 yn fuddiol. Mae'r rhain yn gofyn i sefydliadau dyfarnu 'gynnal safonau, cyhyd ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol' (egwyddor 4), tra'n sicrhau 'nad yw addasiadau y mae'n eu gwneud i gymhwyster yn rhoi dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwnnw mewn sefyllfa fanteisiol na bod dysgwyr dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol' (egwyddor 2). Yn sgil y cynnydd sylweddol yn y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn 2020, yn enwedig cymwysterau Safon Uwch, er mwyn bodloni amod 2, byddai angen i sefydliadau dyfarnu sicrhau cynnydd tebyg, ar y cyfan, mewn graddau cymwysterau galwedigaethol o gymharu â blynyddoedd blaenorol? Os felly, a fyddai hyn yn debygol o ddirymu egwyddor 4? Gallai fod yn fuddiol datgan yn eglur yn yr holl ddeunyddiau arweiniad p'un a yw'r egwyddorion a gyflwynir yn nhrefn eu blaenoriaeth ai peidio.

Mae'r pumed egwyddor arfaethedig (paragraff 76) i geisio cyhoeddi canlyniadau i gynifer o ddysgwyr ag y bo modd, yn codi dryswch posibl o ganlyniad i'r defnydd o'r gair 'posibl'. Yn dechnegol, mae'n bosibl gwneud hynny ar gyfer yr holl ddysgwyr, felly byddai'n fuddiol pe bai'r geiriad a ddefnyddir yn cael ei fireinio'n ofalus. Yn ychwanegol, os caiff yr egwyddorion hyn eu cyflwyno yn nhrefn blaenoriaeth, efallai y dylai'r bumed egwyddor hon ymddangos o dan yr egwyddor sy'n cyfeirio at gynnal dilysrwydd a dibynadwyedd cymwysterau (egwyddor 3).

Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried sut mae'r egwyddorion arfaethedig yn gysylltiedig ag egwyddorion tebyg a sefydlwyd eisoes yng ngwledydd eraill y DU, er enghraifft fel rhan o'r Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 gan Lywodraeth Cymru i ddyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021 (gweler paragraff 3.6 yr adroddiad terfynol).

**C17. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut gallai Egwyddor 2 fod yn berthnasol ar gyfer cymwysterau o fewn y cwmpas yn sgil yr ymagwedd newydd at asesu a gynigir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch?**

Mae'n anodd sicrhau nad yw dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol dan anfantais o gymharu â'r rhai sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol. Mae'r trefniadau arfaethedig yn golygu y bydd unrhyw fylchau yn gysylltiedig â'r pandemig mewn addysgu a dysgu ar gyfer disgyblaethau cyffredinol yn cael llai o effeithiau uniongyrchol ar ddyfarnu cymwysterau o gymharu â disgyblaethau galwedigaethol. Er enghraifft, ni fydd dysgwyr cymwysterau cyffredinol yn wynebu oedi o ran dyfarnu eu cymwysterau. Yn achos cymwysterau galwedigaethol a thechnegol, caiff yr angen am asesiad

ei drafod a'i gyfiawnhau ym mharagraff 20. Serch hynny, mae'r trefniadau ar gyfer cymwysterau yn gyffredinol, mewn perygl o fod yn fwy manteisiol i ddysgwyr cymwysterau cyffredinol na dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol.

**C18. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch p'un a yw Egwyddor 4 yn briodol o hyd ar gyfer cymwysterau o fewn y cwmpas, sy'n cael eu dyfarnu lle na chaiff arholiadau eu cynnal ac/neu ni ellir cwblhau'r holl asesiadau?**

Rydym yn cytuno bod Egwyddor 4 yn yr ERF Estynedig, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn briodol fel egwyddor, ond efallai na fydd modd glynu at hyn yn ymarferol ar sail profiad 2020.

**A19. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at drefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau o fewn y cwmpas lle na chaiff arholiadau eu cynnal ac/neu ni all dysgwyr gwblhau'r holl asesiadau mewnol?**

Rydym yn cytuno â'r ymagwedd arfaethedig, ar y cyfan. Rydym yn croesawu'r datganiad ym mharagraff 90 na ddylai'r ymagwedd a ddatblygwyd gan sefydliadau dyfarnu roi mwy o faich ar ganolfannau a dysgwyr na'r asesiad gwreiddiol, a phwysleisio pwysigrwydd cynnal ymgysylltiad dysgwyr â dysgu yn ystod cyfnodau clo neu gyfnodau clo rhannol. Rydym hefyd yn cefnogi'r angen i ystyried cydraddoldeb â chymwysterau eraill tebyg ym mharagraff 89.

**C20. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y trefniadau y dylid eu rhoi ar waith i wirio cymhwyster ymgeiswyr neu hawliadau am ddyfarnu cymwysterau o fewn cwmpas?**

Rydym yn cytuno'n fras â'r ymagwedd arfaethedig.

**C21. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr arweiniad y dylid ei roi ar waith i gefnogi athrawon a dysgwyr i roi'r trefniadau newydd ar waith?**

Rydym yn cytuno â'r ymagwedd arfaethedig. Mae'n bwysig iawn fod athrawon yn cael arweiniad amserol.

**C22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig at Ystyriaeth Arbennig?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C23. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem ni ategu Amod Cyffredinol I1 ag arweiniad ychwanegol ynghylch apeliadau am gymwysterau o fewn cwmpas?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno, er y dylai'r enghraifft a ddyfynnir ym mharagraff 104, 'y dylai sefydliadau dyfarnu fod â disgresiwn i gynnwys rhesymau ychwanegol pe baent yn dymuno gwneud hynny, er enghraifft caniatáu i apeliadau gael eu derbyn yn uniongyrchol gan ddysgwyr', fod yn gyson ar draws cyrff dyfarnu, er mwyn i ddysgwyr gael hawliau apelio tebyg, ni waeth pa sefydliad dyfarnu y mae eu canolfan yn ei ddefnyddio ar gyfer ei gymwysterau. |

**C24. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at ardystio ar gyfer cymwysterau o fewn y cwmpas?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C25. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd arfaethedig ar gyfer ymgeiswyr / dysgwyr preifat?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C26. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at ddyfarnu ar gyfer cymwysterau o fewn y cwmpas, sydd hefyd yn cael eu dilyn yn rhyngwladol?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C27. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at oruchwylio rheoleiddio a chadw cofnodion?**

**Cytuno'n gryf / Cytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf**

| |
|---|
| Cytuno |

**C28. A oes effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl eraill ar gydraddoldeb nad ydym ni wedi eu harchwilio?**

**Oes / Nac oes**

| |
|---|
| Oes<br><br>Yng Nghymru, mae angen ystyried anghenion dysgwyr sy'n dymuno cael eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Er enghraifft, bydd yn bwysig trefnu bod deunyddiau ategol ac adnoddau asesu ar gael gan sefydliadau dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer cymwysterau lle byddai hyn yn arferol. |

**C29. A oes gennych chi unrhyw farn ar sut gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar grwpiau penodol o ddysgwyr?**

| |
|---|
| Mae paragraffau 158 - 160 yn cyfeirio at gael mynediad at ryngrwyd cyflym ac offer TG. Dylai sefydliadau a chanolfannau dyfarnu ofalu nad yw asesiadau yn rhoi dysgwyr sydd â mynediad cyfyngedig at y rhain dan anfantais, trwy amryfusedd, er enghraifft trwy ddefnyddio asesiadau wedi'u hamseru neu ffrydio fideo lle gallai cysylltiad araf â'r rhyngrwyd ymyrryd â gallu dysgwr i ymgymryd ag asesiad. |

**C30. A oes yna unrhyw effeithiau, costau neu fanteision rheoleiddio yn gysylltiedig â rhoi ein cynigion ar waith, nad ydynt wedi eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?**

**Oes / Nac oes**

| |
|---|
| Nac oes |

**C31. A oes yna unrhyw effeithiau, costau neu fanteision rheoleiddio yn gysylltiedig â rhoi ein cynigion ar waith, sy'n ymwneud yn benodol ag athrawon na nodwyd yn ein hymgynghoriad?**

**Oes / Nac oes**

| |
|---|
| Nac oes |

**C32. Pa gostau ychwanegol ydych chi'n disgwyl fydd gennych chi trwy roi ein cynigion ar waith? A fyddwch chi'n arbed unrhyw gostau? Pryd gallai'r costau a'r arbedion hyn ddigwydd? Rhowch amcangyfrifon o ran ffigurau, lle bo modd.**

| |
|---|
| Dd/b |

**C33. A oes yna unrhyw ymagweddau ychwanegol neu amgen y gallem ni eu defnyddio i leihau effaith reoleiddio ein cynigion?**

| |
|---|
| Nac oes |